*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd o dan adran 79(4)(c) a (d) o Ddeddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2025 (dsc 4)*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

## 2027 Rhif (Cy. )

# IECHYD A DIOGELWCH, CYMRU

# Rheoliadau Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Apelau ac Ad-dalu Treuliau) (Cymru) 2027

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn wrth benderfynu ceisiadau a wneir i Weinidogion Cymru o dan adrannau 38 a 43 o Ddeddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2025 ("y Ddeddf" ).

Mae Rhan 1 yn ymdrin â materion rhagarweiniol.

Mae Rhan 2 yn ymwneud â phenderfynu ceisiadau a wneir o dan adran 38 o'r Ddeddf. Mae adran 38 yn rhoi i berchennog ar dir y rhoddir hysbysiad iddo sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal gweithrediadau ar dir yn unol ag adran 35 o'r Ddeddf, neu berson y rhoddir copi o'r hysbysiad iddo o dan adran 37, hawl i wneud cais i Weinidogion Cymru i amrywio neu ganslo'r hysbysiad.

Mae Rhan 2 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chynnwys cais, y penderfyniadau o ran y weithdrefn, dyletswydd i rannu manylion cyswllt â'r person penodedig, a sylwadau a sylwadaethau pellach.

Mae Rhan 2 hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â gwrandawiadau ac ymchwiliadau.

Mae Rhan 3 yn ymwneud â phenderfynu ceisiadau a wneir o dan adran 43 o'r Ddeddf. Mae adran 43 yn gymwys pan fo'r Awdurdod wedi canslo hysbysiad

adran 35 a bod y perchennog ar dir y rhoddwyd yr hysbysiad iddo wedi mynd i wariant wrth gydymffurfio ag ef. Mae adran 43 yn rhoi i'r perchennog hawl i wneud cais i Weinidogion Cymru i gael ad-daliad gan yr Awdurdod ar gyfer (a) unrhyw wariant yr aed iddo gan y perchennog o ganlyniad iddo gael yr hysbysiad, a (b) unrhyw wariant yr aed iddo gan y perchennog y gellir ei briodoli i ganslo'r hysbysiad.

Mae Rhan 3 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chynnwys cais, terfynau amser ar gyfer gwneud cais, dyletswydd i rannu manylion cyswllt â'r person penodedig, a sylwadau a sylwadaethau pellach.

Mae Rhan 4 yn gymwys i'r ddau fath o gais. Mae'n cynnwys darpariaethau atodol sy'n ymwneud â disgresiwn y person penodedig, cyflenwi dogfennau, ymestyn dyddiadau cau a darparu gwybodaeth ychwanegol, arolygiadau safle, tynnu ceisiadau yn ôl, methu â chymryd camau, dirymu penodiad person a benodwyd i benderfynu cais a'r gofyniad i hysbysu am y penderfyniad.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac fe'i cyhoeddwyd ar www.llyw.cymru.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd o dan adran 79(4)(c) a (d) o Ddeddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2025 (dsc 4)*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

# 2027 Rhif (Cy. )

# IECHYD A DIOGELWCH, CYMRU

## Rheoliadau Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Apelau ac Ad-dalu Treuliau) (Cymru) 2027

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | ***** |
| *Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2027* | |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 40(1), (2), (3), (4) a 43(7), (8) a (9) o Ddeddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2025(**1**).

Yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd a gymhwysir gan adran 79(3), (4)(c) a (d) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn statudol Cymreig hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

## RHAN 1

### Cyflwyniad

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Apelau ac Ad-dalu Treuliau) (Cymru) 2027.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2027.

(**1**) 2025 dsc 4.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "apêl" ("*appeal*") yw penderfynu cais o dan adran 38 o'r Ddeddf;

ystyr "yr Awdurdod" ("*the Authority*") yw Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru a sefydlwyd gan adran 1(1) o'r Ddeddf;

ystyr "cais" ("*application*")—

(a) yn Rhan 2 yw cais o dan adran 38 o'r Ddeddf;

(b) yn Rhan 3 yw cais o dan adran 43 o'r Ddeddf;

(c) yn Rhan 4 yw cais o dan adran 38 o'r Ddeddf neu gais o dan adran 43 o'r Ddeddf, fel y bo'n briodol;

ystyr "ceisydd" ("*applicant*") yw person sy'n gwneud cais;

mae i "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a roddir i "electronic communication" gan adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000(**1**);

mae i "dyddiad dechrau" ("*start date*") yn Rhan 2 yr ystyr a roddir yn rheoliad 6 ac yn Rhan 3 mae iddo'r ystyr a roddir yn rheoliad 24;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2025;

ystyr "gweithdrefn" ("*procedure*")—

(a) mewn perthynas â phenderfynu cais o dan adran 38 o'r Ddeddf, yw sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad, ymchwiliad neu gyfuniad o'r gweithdrefnau hynny;

(b) mewn perthynas â phenderfynu cais o dan adran 43 o'r Ddeddf, yw sylwadau ysgrifenedig;

ystyr "hysbysiad adran 35" ("*section 35 notice*") yw'r hysbysiad a roddir o dan adran 35 o'r Ddeddf, y mae'r cais yn ymwneud ag ef;

mae i "hysbysiad canslo" ("*notice of cancellation*") yr ystyr a roddir iddo gan adran 42(2) o'r Ddeddf;

ystyr "manylion cyswllt" ("*contact details*"), mewn perthynas â pherson, yw enw'r person, cyfeiriad y person, rhif ffôn y person (os yw'n gymwys), cyfeiriad e-bost y person (os yw'n gymwys) ac unrhyw wybodaeth arall ynghylch sut y gellir cysylltu â'r person;

---

(**1**) 2000 p. 7; diwygiwyd adran 15(1) gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21).

ystyr "person penodedig" ("*appointed person*") yw person a benodir gan Weinidogion Cymru;

ystyr "sail dros apelio" ("*grounds of appeal*") yw un neu ragor o'r seiliau yn adran 38(3) a (4) o'r Ddeddf.

# RHAN 2

## Penderfynu apelau o dan adran 38 o'r Ddeddf

**Yr hawl i wneud cais i amrywio neu ganslo hysbysiad adran 35**

**3.** Rhaid gwneud cais yn unol â'r Rheoliadau hyn.

**Cynnwys cais**

**4.**—(1) Rhaid i gais—

(a) bod yn ysgrifenedig, ar ffurflen a bennir gan Weinidogion Cymru;

(b) cynnwys manylion cyswllt y ceisydd a manylion cyswllt unrhyw asiant sy'n gweithredu ar ran y ceisydd;

(c) datgan lleoliad y tir y mae'r hysbysiad adran 35 yn ymwneud ag ef;

(d) datgan enw neu enwau cyffredin y tir;

(e) datgan buddiant y ceisydd yn y tir;

(f) datgan y sail dros apelio y mae'r ceisydd yn dibynnu arni;

(g) datgan pa un a yw'r ceisydd yn dymuno yr ymdrinnir â'r apêl drwy sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad neu ymchwiliad, gan gynnwys rhesymau;

(h) cynnwys rhestr o'r holl ddogfennau, a'r dyddiad y lluniwyd pob dogfen (pan fo unrhyw ddogfen wedi ei dyddio), a ddarperir o dan baragraff (2).

(2) Rhaid i'r canlynol fynd gyda chais—

(a) copi o'r hysbysiad adran 35, a

(b) copi o bob dogfen y mae'r ceisydd yn dymuno dibynnu arni.

**Penderfynu ceisiadau**

**5.** Rhaid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Rheoliadau hyn.

**Penderfyniad o ran y weithdrefn a'r dyddiad dechrau**

**6.**—(1) Rhaid i'r person penodedig, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl penderfynu a yw'r cais yn bodloni

gofynion rheoliad 4, benderfynu pa un a yw'r cais i'w benderfynu drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad, ymchwiliad neu gyfuniad o'r gweithdrefnau hyn.

(2) Rhaid i'r person penodedig hysbysu'r ceisydd, yr Awdurdod a phob person y rhoddwyd copi o'r hysbysiad adran 35 iddo o dan adran 37 o'r Ddeddf, am y penderfyniad hwnnw.

(3) Mae'r apêl yn dechrau drannoeth y dyddiad y rhoddwyd hysbysiad o dan baragraff (2) (y "dyddiad dechrau").

(4) Rhaid i'r person penodedig anfon copi o'r cais ac unrhyw ddogfennau sy'n mynd gyda'r cais i'r Awdurdod wrth hysbysu'r Awdurdod o dan baragraff (2).

(5) Caniateir amrywio penderfyniad o dan baragraff (1) drwy benderfyniad dilynol o dan y paragraff hwnnw ar unrhyw adeg cyn i'r cais gael ei benderfynu.

(6) Pan fo penderfyniad yn cael ei amrywio—

(a) rhaid i'r person penodedig hysbysu'r ceisydd, yr Awdurdod ac unrhyw berson arall sydd wedi cyflwyno sylwadau mewn cysylltiad â'r apêl, am yr amrywiad,

(b) mae unrhyw beth a wneir o dan y weithdrefn flaenorol a allai fod wedi cael ei wneud o dan unrhyw ddarpariaeth gyfatebol o'r Rheoliadau hyn sy'n ymwneud â'r weithdrefn newydd yn cael effaith fel pe bai wedi ei wneud o dan y ddarpariaeth gyfatebol honno, ac

(c) caiff y person penodedig roi cyfarwyddydau canlyniadol o ran y weithdrefn.

(7) Nid oes unrhyw beth ym mharagraffau (4) i (6) yn effeithio ar y dyddiad dechrau o dan baragraff (3).

(8) Wrth wneud penderfyniad o dan baragraff (1), rhaid i'r person penodedig roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir i'r person penodedig gan Weinidogion Cymru.

**Dyletswydd ar yr Awdurdod i rannu manylion cyswllt**

**7.**—(1) Rhaid i'r Awdurdod, o fewn y cyfnod o 2 wythnos sy'n dechrau â'r dyddiad dechrau, anfon at y person penodedig y manylion cyswllt ar gyfer pob person y rhoddwyd copi o'r hysbysiad adran 35 iddo o dan adran 37 o'r Ddeddf, at ddiben arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf a'r Rheoliadau hyn.

(2) Nid yw'r rheoliad hwn yn ei gwneud yn ofynnol nac yn caniatáu i wybodaeth gael ei rhoi yn groes i unrhyw waharddiad a osodir gan ddeddfiad neu reol gyfreithiol arall.

**Sylwadau a sylwadaethau**

**8.**—(1) Pan fo cais i'w benderfynu drwy sylwadau ysgrifenedig—

(a) rhaid i'r Awdurdod, o fewn y cyfnod o 4 wythnos sy'n dechrau â'r dyddiad dechrau, anfon at y person penodedig unrhyw sylwadau y mae'n dymuno eu cyflwyno mewn perthynas â'r apêl ynghyd ag unrhyw ddogfennau y mae'n dymuno dibynnu arnynt;

(b) os yw'r ceisydd yn dymuno cyflwyno unrhyw sylwadau yn ychwanegol at y rhai a gyflwynwyd yn y cais neu yn y dogfennau sy'n mynd gyda'r cais, rhaid i'r ceisydd anfon y sylwadau hynny at y person penodedig o fewn 4 wythnos sy'n dechrau â'r dyddiad dechrau.

(2) Pan fo cais i'w benderfynu drwy wrandawiad neu ymchwiliad, rhaid i'r ceisydd a'r Awdurdod, o fewn 4 wythnos sy'n dechrau â'r dyddiad dechrau, anfon at y person penodedig ddatganiad yn cynnwys manylion llawn yr achos y maent yn cynnig ei gyflwyno yn y gwrandawiad neu'r ymchwiliad a rhestr o unrhyw ddogfennau y maent yn cynnig cyfeirio atynt neu eu cyflwyno fel tystiolaeth.

(3) Pan fo'r cais i'w benderfynu drwy sylwadau ysgrifenedig, rhaid i'r person penodedig, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael unrhyw sylwadau y mae'r Awdurdod yn dymuno eu cyflwyno mewn perthynas â'r apêl ac unrhyw ddogfennau y mae'n dymuno dibynnu arnynt, anfon copi o'r sylwadau a'r dogfennau hynny at y ceisydd.

(4) Pan fo'r cais i'w benderfynu drwy sylwadau ysgrifenedig, rhaid i'r person penodedig, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael unrhyw sylwadau ychwanegol oddi wrth y ceisydd, anfon copi o'r sylwadau hynny i'r Awdurdod.

(5) Pan fo'r cais i'w benderfynu drwy wrandawiad neu ymchwiliad, rhaid i'r person penodedig, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael datganiad a rhestr yr Awdurdod, anfon copi o'r datganiad hwnnw a'r rhestr honno at y ceisydd.

(6) Pan fo'r cais i'w benderfynu drwy wrandawiad neu ymchwiliad, rhaid i'r person penodedig, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael datganiad a rhestr y ceisydd, anfon copi o'r datganiad hwnnw a'r rhestr honno i'r Awdurdod.

(7) Pan fo'r cais i'w benderfynu drwy sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad, ymchwiliad neu gyfuniad o'r gweithdrefnau hyn, rhaid i'r person penodedig, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael sylwadau mewn perthynas â'r apêl oddi wrth rywun heblaw'r Awdurdod neu'r ceisydd, anfon copïau o'r sylwadau hynny i'r Awdurdod ac at y ceisydd.

(8) Caiff y ceisydd a'r Awdurdod, o fewn y cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau â'r dyddiad dechrau, anfon sylwadaethau ar sylwadau neu ddatganiadau at y person penodedig.

(9) Rhaid i'r person penodedig, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfnod hwnnw o 6 wythnos, anfon copi o sylwadaethau'r Awdurdod at y ceisydd ac ar yr un pryd, anfon copi o sylwadaethau'r ceisydd i'r Awdurdod.

**Sefydlu gwrandawiad neu ymchwiliad**

**9.**—(1) Os yw cais i'w benderfynu drwy wrandawiad neu ymchwiliad, neu drwy gyfuniad o weithdrefnau, rhaid i'r person penodedig bennu dyddiad ar gyfer y gwrandawiad neu'r ymchwiliad ("y dyddiad perthnasol").

(2) Rhaid i'r person penodedig, o leiaf 4 wythnos cyn y dyddiad perthnasol, roi hysbysiad o'r dyddiad perthnasol i—

(a) y ceisydd,

(b) yr Awdurdod, ac

(c) unrhyw berson y rhoddwyd copi o'r hysbysiad adran 35 iddo o dan adran 37 o'r Ddeddf.

(3) Rhaid i'r Awdurdod, o leiaf 2 wythnos cyn y dyddiad perthnasol, gyhoeddi hysbysiad o'r gwrandawiad neu'r ymchwiliad yn y fath fodd ag y mae'r Awdurdod yn meddwl y bydd yn fwyaf effeithiol i'w ddwyn i sylw unrhyw bersonau sy'n debygol o fod â buddiant ynddo.

(4) Os yw'r person penodedig yn newid y dyddiad perthnasol, rhaid ailadrodd y weithdrefn ym mharagraffau (2) a (3).

**Gwrandawiadau**

**10.**—(1) Pan fo cais i'w benderfynu drwy wrandawiad, caiff y person penodedig benderfynu pa un a gynhelir y gwrandawiad—

(a) yn bersonol,

(b) yn gyfan gwbl drwy ddefnyddio mynediad o bell ("apêl o bell"), neu

(c) yn rhannol yn bersonol ac yn rhannol drwy ddefnyddio mynediad o bell ("apêl hybrid").

(2) Ni chaniateir i apêl o bell ond cael ei chynnal yn gyfan gwbl drwy gyswllt awdio byw os—

(a) nad oes cyswllt fideo byw ar gael am resymau sy'n ymwneud â chysylltiad rhyngrwyd, a

(b) yw'r ceisydd a'r Awdurdod yn cytuno.

(3) Os yw'r person penodedig yn penderfynu y cynhelir naill ai apêl o bell neu apêl hybrid, rhaid iddo

wneud yr holl drefniadau angenrheidiol er mwyn iddi gael mynediad at yr offer mynediad o bell angenrheidiol.

(4) Ni chaiff y person penodedig benderfynu cynnal apêl o bell neu apêl hybrid oni bai ei fod wedi ei fodloni—

(a) na fydd y defnydd o fynediad o bell yn atal y partïon rhag gallu cyflwyno eu hachos yn llawn gan ddefnyddio'r weithdrefn honno,

(b) bod gan bob cyfranogwr fynediad at y dulliau electronig i'w alluogi i glywed a chael ei glywed, ac i weld a chael ei weld (pan ddefnyddir cyswllt fideo byw), drwy gydol y gwrandawiad, ac

(c) bod modd gwrando ar yr apêl mewn ffordd deg a thryloyw gan ddefnyddio'r weithdrefn honno.

(5) Caiff y person penodedig benderfynu y bydd cais yn cael ei benderfynu ar sail yr wybodaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd os nad yw naill ai cynrychiolwyr yr Awdurdod neu'r ceisydd yn gallu bod yn bresennol ar y dyddiad perthnasol.

**Cyfarfod rhagymchwiliad**

**11.**—(1) Pan fo'r cais i'w benderfynu drwy ymchwiliad, caiff y person penodedig gynnal cyfarfod rhagymchwiliad i benderfynu ar y materion i fynd i'r afael â hwy a'r weithdrefn sydd i'w dilyn yn yr ymchwiliad.

(2) Rhaid i'r person penodedig roi o leiaf 4 wythnos o rybudd o gyfarfod o'r fath i—

(a) y ceisydd,

(b) yr Awdurdod

(c) unrhyw berson arall y mae'n hysbys ar ddyddiad yr hysbysiad fod ganddo hawlogaeth i ymddangos gerbron yr ymchwiliad, a

(d) unrhyw berson arall y mae'r person penodedig yn ystyried bod ei bresenoldeb yn ddymunol.

(3) Yn y cyfarfod, caiff y person penodedig roi cyfarwyddydau i'r ceisydd, yr Awdurdod ac unrhyw berson arall sy'n dymuno ymddangos gerbron yr ymchwiliad ynghylch pethau sydd i'w gwneud i baratoi ar gyfer yr ymchwiliad a'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid iddynt gael eu gwneud.

(4) Rhaid i berson y rhoddir cyfarwyddyd iddo o dan baragraff (3) gydymffurfio â'r cyfarwyddyd.

**Datganiad o ffeithiau y cytunir arnynt – ymchwiliadau**

**12.**—(1) Pan fo'r cais i'w benderfynu drwy ymchwiliad, rhaid i'r ceisydd a'r Awdurdod gyda'i gilydd lunio datganiad sy'n cynnwys yr wybodaeth ffeithiol honno am bwnc yr apêl y maent yn gallu cytuno arni.

(2) Rhaid i'r Awdurdod sicrhau bod y person penodedig yn cael y datganiad hwnnw o leiaf 2 wythnos cyn y dyddiad perthnasol.

**Proflenni tystiolaeth – ymchwiliadau**

**13.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo person sydd â hawlogaeth i ymddangos gerbron ymchwiliad yn bwriadu rhoi tystiolaeth, neu alw tyst i roi tystiolaeth, gerbron yr ymchwiliad.

(2) Rhaid i'r person, o leiaf 2 wythnos cyn y dyddiad perthnasol neu unrhyw adeg arall y mae'r person penodedig yn ei gyfarwyddo, anfon proflen dystiolaeth y bwriedir ei rhoi ynghyd ag unrhyw grynodeb ysgrifenedig sy'n ofynnol at y person penodedig.

(3) Rhaid i'r person penodedig, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cael proflen dystiolaeth, anfon copi ohoni at y ceisydd, i'r Awdurdod ac at unrhyw berson arall sydd wedi anfon proflen dystiolaeth at y person penodedig.

(4) Mae angen crynodeb ysgrifenedig os yw'r broflen dystiolaeth o dan sylw yn fwy na 1,500 o eiriau.

(5) Pan ddarperir crynodeb ysgrifenedig, dim ond y crynodeb hwnnw y caniateir ei ddarllen yn yr ymchwiliad, oni bai bod y person penodedig yn cyfarwyddo fel arall.

(6) Pan fo person yn rhoi tystiolaeth mewn ymchwiliad drwy ddarllen crynodeb ysgrifenedig o broflen dystiolaeth—

(a) caiff y broflen dystiolaeth ei thrin fel pe bai wedi ei chyflwyno fel tystiolaeth, oni bai bod y person y mae'n ofynnol iddo ddarparu'r crynodeb ysgrifenedig yn hysbysu'r person penodedig ei fod bellach yn dymuno dibynnu ar gynnwys y crynodeb hwnnw yn unig, a

(b) caiff y person y mae ei dystiolaeth wedi ei chynnwys yn y broflen dystiolaeth fod yn destun croesholi yn ei chylch i'r un graddau â phe bai'n dystiolaeth sydd wedi ei rhoi ar lafar.

(7) Caiff y person penodedig ganiatáu i unrhyw berson newid neu ychwanegu at broflen dystiolaeth neu grynodeb y person hwnnw i'r graddau y bo'n angenrheidiol yn yr ymchwiliad.

(8) Ond os gwneir hyn, rhaid i'r person penodedig (os oes angen drwy ohirio'r ymchwiliad) roi cyfle digonol i bob person arall sy'n ymddangos gerbron yr ymchwiliad i ystyried unrhyw fater newydd neu ddogfen newydd.

**Gweithdrefn – gwrandawiadau ac ymchwiliadau**

**14.**—(1) Caiff y person penodedig benderfynu ar y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn gwrandawiad neu ymchwiliad, heblaw fel y darperir ar ei gyfer eisoes yn y Rheoliadau hyn.

(2) Ar ôl i'r gwrandawiad neu'r ymchwiliad ddechrau, caiff y person penodedig ei ohirio ar unrhyw adeg.

(3) Y personau sydd â hawlogaeth i ymddangos yw—

(a) y ceisydd,

(b) yr Awdurdod, ac

(c) unrhyw berson arall sydd wedi cyflwyno sylwadau ynglŷn â'r apêl.

(4) Caiff y person penodedig fynd ymlaen yn absenoldeb unrhyw berson sydd â hawlogaeth i ymddangos.

(5) Caiff y person penodedig ganiatáu i unrhyw berson arall ymddangos, ac ni chaniateir atal caniatâd o'r fath yn afresymol.

(6) Caiff unrhyw berson sydd â hawlogaeth i ymddangos neu y caniateir iddo ymddangos wneud hynny yn bersonol neu gael ei gynrychioli gan unrhyw berson arall.

(7) Caiff person sydd â hawlogaeth i ymddangos alw tystiolaeth, ond mae galw tystiolaeth yn ôl disgresiwn y person penodedig.

(8) Ni chaniateir croesholi mewn gwrandawiad oni bai bod y person penodedig yn ystyried bod angen hynny i sicrhau archwiliad trylwyr o'r prif faterion.

(9) Os yw'r person penodedig yn ystyried bod angen croesholi, rhaid i'r person penodedig ystyried, ar ôl ymgynghori â'r ceisydd a'r Awdurdod, a ddylid cau'r gwrandawiad a dechrau ymchwiliad yn lle hynny.

(10) Caiff person sydd â hawlogaeth i ymddangos gerbron ymchwiliad groesholi person sy'n rhoi tystiolaeth, ond mae croesholi person sy'n rhoi tystiolaeth gerbron ymchwiliad fel arall yn ôl disgresiwn y person penodedig.

(11) Caiff y person penodedig ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig, tystiolaeth neu unrhyw ddogfen arall sy'n dod i law oddi wrth unrhyw berson cyn neu yn ystod gwrandawiad neu ymchwiliad, ar yr amod bod y person penodedig yn datgelu hynny yn y gwrandawiad neu'r ymchwiliad.

(12) Caiff person penodedig benderfynu cynnal gwrandawiad neu ymchwiliad yn breifat yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

**Pwerau i eithrio personau, tystiolaeth etc.**

**15.**—(1) Os yw'r person penodedig yn ystyried ar unrhyw gam o wrandawiad neu ymchwiliad fod unrhyw un neu ragor o'r rhesymau ym mharagraff (2) yn gymwys, caiff y person penodedig atal unrhyw berson rhag—

(a) rhoi tystiolaeth,

(b) croesholi person sy'n rhoi tystiolaeth, neu

(c) cyflwyno unrhyw fater.

(2) Y rhesymau yw—

(a) nad oedd y dystiolaeth neu'r mater wedi ei darparu neu ei ddarparu o fewn y terfynau amser perthnasol,

(b) nad oedd y dystiolaeth neu'r mater fel arall wedi ei darparu neu ei ddarparu yn unol ag unrhyw ddarpariaeth o'r Rheoliadau hyn nac ag unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd neu ofyniad a wnaed gan y person penodedig o dan y Rheoliadau hyn,

(c) bod y dystiolaeth neu'r mater yn amherthnasol neu'n ailadroddus, neu

(d) bod y person yn ymddwyn neu wedi ymddwyn mewn modd aflonyddgar yn y gwrandawiad neu'r ymchwiliad.

(3) Os bydd unrhyw berson yn y gwrandawiad neu'r ymchwiliad yn ymddwyn mewn modd aflonyddgar, caiff y person penodedig—

(a) ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw adael,

(b) atal y person hwnnw rhag cymryd rhan yn y gwrandawiad neu'r ymchwiliad, neu

(c) peidio â chaniatáu i'r person hwnnw aros yn y gwrandawiad neu'r ymchwiliad neu gymryd rhan ynddo ond o dan amodau penodedig.

(4) Pan fo'r person penodedig yn gwrthod caniatáu i berson roi tystiolaeth lafar o dan baragraff (3), caiff y person gyflwyno i'r person penodedig unrhyw dystiolaeth neu fater arall yn ysgrifenedig cyn diwedd y gwrandawiad neu'r ymchwiliad.

**Ymchwiliadau cydredol neu gyfunol**

**16.** Pan—

(a) fo cais i'w benderfynu drwy ymchwiliad, a

(b) yn achos rhyw fater arall y mae'n ofynnol iddo neu yr awdurdodir iddo fod yn destun

ymchwiliad ("yr ymchwiliad arall"), ymddengys i'r person penodedig y dylid ystyried y materion gyda'i gilydd,

caiff y person penodedig gyfarwyddo bod y ddau ymchwiliad yn cael eu cynnal yn gydredol neu'n cael eu cyfuno yn un ymchwiliad.

### Gwrandawiadau cydredol neu gyfunol

**17.** Pan—

(a) fo cais i'w benderfynu drwy wrandawiad, a

(b) yn achos rhyw fater arall y mae'n ofynnol iddo neu yr awdurdodir iddo fod yn destun gwrandawiad ("y gwrandawiad arall"), ymddengys i'r person penodedig y dylid ystyried y materion gyda'i gilydd,

caiff y person penodedig gyfarwyddo bod y ddau wrandawiad yn cael eu cynnal yn gydredol neu'n cael eu cyfuno yn un gwrandawiad.

### Ymchwiliadau diogelwch gwladol

**18.**—(1) Os yw Gweinidogion Cymru, yn achos apêl, yn ardystio y byddai, ym marn Gweinidogion Cymru, yn groes i fuddiannau diogelwch gwladol—

(a) pe bai ymchwiliad o dan y Rheoliadau hyn yn cael ei gynnal, neu

(b) pe bai unrhyw aelodau o'r cyhoedd, neu unrhyw bersonau penodedig, yn cael eu derbyn i'r ymchwiliad neu ryw ran benodedig ohono,

nid yw'r ymchwiliad i'w gynnal neu nid yw'r cyhoedd i'w dderbyn, neu nid yw'r personau hynny i'w derbyn, i'r ymchwiliad neu'r rhan honno ohono.

(2) Ym mharagraff (1) ystyr "penodedig" yw—

(a) a bennir yn y dystysgrif, neu

(b) o ddisgrifiad a bennir yn y dystysgrif.

### Penderfynu cais drwy sylwadau ysgrifenedig

**19.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os yw cais i'w benderfynu drwy sylwadau ysgrifenedig.

(2) Mae cais sy'n bodloni gofynion rheoliad 4, ynghyd ag unrhyw sylwadau neu sylwadaethau a gyflwynir gan y ceisydd sy'n dod i law o dan reoliad 8(1)(b) ac (8), yn ffurfio sylwadau'r ceisydd mewn perthynas â'r apêl.

(3) Mae'r sylwadau a gyflwynir o dan reoliad 8(1)(a), ynghyd ag unrhyw sylwadaethau a gyflwynir gan yr Awdurdod o dan reoliad 10(8), yn ffurfio sylwadau'r Awdurdod mewn perthynas â'r apêl.

(4) Wrth benderfynu'r cais, caiff y person penodedig ddiystyru unrhyw sylw neu sylwadaeth a gyflwynir gan

y ceisydd neu'r Awdurdod heblaw sylwadau'r ceisydd a sylwadau'r Awdurdod fel y nodir ym mharagraffau (2) a (3).

# RHAN 3

## Cais o dan adran 43 o'r Ddeddf

**Cais am ad-dalu treuliau ar ôl canslo hysbysiad adran 35**

**20.** Rhaid gwneud ceisiadau yn unol â'r Rheoliadau hyn.

**Cynnwys cais**

**21.**—(1) Rhaid i gais—

(a) bod yn ysgrifenedig, ar ffurflen a bennir gan Weinidogion Cymru;

(b) datgan manylion cyswllt y ceisydd a manylion cyswllt unrhyw asiant sy'n gweithredu ar ran y ceisydd;

(c) datgan lleoliad y tir y mae'r hysbysiad adran 35 yn ymwneud ag ef;

(d) datgan enw neu enwau cyffredin y tir;

(e) datgan buddiant y ceisydd yn y tir;

(f) cynnwys datganiad o gyfrif a thystiolaeth o'r canlynol—

(i) unrhyw wariant yr aed iddo gan y ceisydd o ganlyniad i'r hysbysiad adran 35, a

(ii) unrhyw wariant yr aed iddo gan y ceisydd y gellir ei briodoli i ganslo'r hysbysiad adran 35 (pa un a ellir ei briodoli i adfer unrhyw dir, canslo unrhyw gontract neu fel arall);

(g) rhestr o'r holl ddogfennau, a'r dyddiad y lluniwyd pob dogfen (pan fo unrhyw ddogfen wedi ei dyddio), a bennir ym mharagraff (2).

(2) Rhaid i'r canlynol fynd gyda chais—

(a) copi o hysbysiad adran 35,

(b) copi o'r hysbysiad canslo y mae'r cais yn ymwneud ag ef, ac

(c) copi o bob dogfen y mae'r ceisydd yn dymuno dibynnu arni.

**Y terfyn amser ar gyfer gwneud cais**

**22.**—(1) Rhaid i gais ddod i law Gweinidogion Cymru o fewn 6 mis sy'n dechrau â dyddiad yr hysbysiad canslo.

### Penderfynu ceisiadau

**23.** Rhaid penderfynu ceisiadau drwy sylwadau ysgrifenedig yn unol â'r Rheoliadau hyn.

### Dyddiad dechrau

**24.**—(1) Rhaid i'r person penodedig, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl penderfynu a yw'r cais yn bodloni gofynion rheoliad 21, hysbysu'r ceisydd, yr Awdurdod a phob person y rhoddwyd copi o'r hysbysiad adran 35 iddo o dan adran 37 o'r Ddeddf, am y penderfyniad hwnnw.

(2) Os yw'r person penodedig yn penderfynu bod y cais yn bodloni gofynion rheoliad 21, mae'r cyfnod ar gyfer penderfynu'r cais yn dechrau drannoeth y dyddiad y rhoddwyd hysbysiad o dan baragraff (1) (y "dyddiad dechrau").

(3) Rhaid i'r person penodedig anfon i'r Awdurdod gopi o'r cais ac unrhyw ddogfennau sy'n mynd gyda'r cais a anfonwyd ato o dan reoliad 21(2) wrth roi hysbysiad i'r Awdurdod o dan baragraff (2).

(4) Wrth wneud penderfyniad o dan baragraff (1), rhaid i'r person penodedig roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir i'r person penodedig gan Weinidogion Cymru.

### Dyletswydd ar yr Awdurdod i rannu manylion cyswllt

**25.**—(1) Rhaid i'r Awdurdod, o fewn y cyfnod o 2 wythnos sy'n dechrau â'r dyddiad dechrau, anfon at y person penodedig fanylion cyswllt pob person y rhoddwyd copi o'r hysbysiad adran 35 iddo o dan adran 37 o'r Ddeddf, at ddiben arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf a'r Rheoliadau hyn.

(2) Nid yw'r rheoliad hwn yn ei gwneud yn ofynnol nac yn caniatáu i wybodaeth gael ei rhoi yn groes i unrhyw waharddiad a osodir gan ddeddfiad neu reol gyfreithiol arall.

### Sylwadau a sylwadaethau

**26.**—(1) — Rhaid i'r Awdurdod o fewn 2 wythnos sy'n dechrau â'r dyddiad dechrau, anfon at y person penodedig unrhyw sylwadau y mae'n dymuno eu cyflwyno ar y cais ynghyd ag unrhyw ddogfennau y mae'n dymuno dibynnu arnynt.

(2) Ar ddiwedd y cyfnod o 2 wythnos sy'n dechrau â'r dyddiad dechrau, rhaid i'r person penodedig anfon copi o sylwadau'r Awdurdod at y ceisydd.

# RHAN 4

## Darpariaethau atodol

### Disgresiwn y person penodedig

**27.** Mae'r holl faterion sy'n ymwneud â'r weithdrefn i'w penderfynu gan y person penodedig, heblaw fel y darperir ar eu cyfer eisoes yn y Rheoliadau hyn.

### Cyflenwi dogfennau etc.

**28.**—(1) Rhaid i unrhyw beth y mae'n ofynnol neu y caniateir ei anfon neu ei gyflenwi (gan gynnwys unrhyw sylwadau a gyflwynir) o dan y Rheoliadau hyn neu adran 38, 39 neu 43 o'r Ddeddf fod yn ysgrifenedig a chaniateir ei gyflenwi—

(a) drwy'r post, neu

(b) drwy gyfathrebiad electronig.

(2) Os yw dogfen a gyflenwir yn cyfeirio at ddogfen arall, rhaid cyflenwi copi o'r ddogfen arall honno hefyd.

(3) O ran dogfennau a chopïau a gyflenwir—

(a) gan y ceisydd neu'r Awdurdod, rhaid iddynt gael eu cyflenwi ar ffurf ddyblyg;

(b) gan unrhyw berson arall, rhaid iddynt gael eu cyflenwi ar ffurf driphlyg.

(4) Ond nid yw paragraff (3) yn gymwys i ddogfen neu gopi a gyflenwir yn electronig.

(5) Os yw unrhyw ddogfen eisoes wedi ei chyflenwi at ddibenion penderfynu cais ac ar gael yn rhwydd i bob parti, caiff y person penodedig gyfarwyddo nad oes angen ei chyflenwi eto.

(6) Pan ddaw'r cyfathrebiad electronig i law'r derbynnydd y tu allan i oriau busnes y derbynnydd, cymerir ei fod wedi dod i law ar y diwrnod gwaith nesaf.

(7) Wrth benderfynu cais, caiff y person penodedig ddiystyru unrhyw sylwadau, dogfennau, tystiolaeth neu wybodaeth sy'n dod i law ar ôl y terfynau amser perthnasol.

(8) Pan fo ceisydd yn cyflenwi unrhyw gais neu ddogfen arall i Weinidogion Cymru neu'r person penodedig drwy ddefnyddio cyfathrebiad electronig, cymerir ei fod wedi cytuno—

(a) i ddefnyddio'r cyfathrebiad hwnnw at yr holl ddibenion sy'n ymwneud â phenderfynu'r cais y mae modd eu cyflawni yn electronig,

(b) mai cyfeiriad y ceisydd at ddiben cyfathrebiad o'r fath yw'r cyfeiriad sydd wedi ei ymgorffori yn y cais neu'r ddogfen arall, neu sydd fel arall wedi ei gysylltu yn rhesymegol ag ef neu â hi, ac

(c) y bydd cytundeb tybiedig y ceisydd o dan y paragraff hwn yn parhau hyd nes i’r ceisydd roi hysbysiad o dan baragraff (9) ei fod yn dymuno dirymu’r cytundeb.

(9) Pan na fo’r ceisydd yn fodlon derbyn y defnydd o gyfathrebiadau electronig mwyach at unrhyw ddiben o’r Rheoliadau hyn neu adran 38, 39 neu 43 o’r Ddeddf y mae modd ei gyflawni yn electronig, rhaid i’r ceisydd roi hysbysiad ysgrifenedig—

(a) yn tynnu’n ôl unrhyw gyfeiriad yr hysbyswyd Gweinidogion Cymru neu’r person penodedig amdano at y diben hwnnw, neu

(b) yn dirymu unrhyw gytundeb yr ymrwymwyd iddo â Gweinidogion Cymru neu’r person penodedig at y diben hwnnw.

**Ymestyn terfynau amser perthnasol a darparu gwybodaeth ychwanegol neu gopïau ychwanegol**

**29.**—(1) Caiff y person penodedig, mewn amgylchiadau eithriadol, ymestyn unrhyw derfyn amser perthnasol.

(2) Caiff y person penodedig ar unrhyw adeg—

(a) ei gwneud yn ofynnol rhoi rhagor o wybodaeth;

(b) cynnig cyfleoedd pellach i gyflwyno sylwadau;

os yw’r person penodedig yn ystyried bod hynny yn angenrheidiol ar gyfer penderfynu’r cais.

(3) Rhaid i berson sy’n ddarostyngedig i ofyniad, neu sy’n cael cynnig cyfle i gyflwyno sylwadau pellach, o dan baragraff (2), gydymffurfio ag unrhyw derfyn amser a bennir gan y person penodedig.

**Arolygiadau safle**

**30.**—(1) Caiff y person penodedig arolygu’r tir y mae’r cais yn ymwneud ag ef.

(2) Pan fo’r person penodedig yn bwriadu gwneud arolygiad o dan baragraff (1), caiff hysbysu’r ceisydd ac unrhyw berson arall am ddyddiad ac amser yr arolygiad.

(3) Nid yw’n ofynnol i’r person penodedig ohirio arolygiad pan na fo unrhyw berson (gan gynnwys y ceisydd) yn bresennol ar yr adeg a hysbyswyd.

**Tynnu cais yn ôl**

**31.**—(1) Caiff ceisydd dynnu cais yn ôl ar unrhyw adeg cyn i’r person penodedig benderfynu’r cais.

(2) Os yw ceisydd yn tynnu cais yn ôl, rhaid gwneud hynny drwy ysgrifennu at Weinidogion Cymru.

(3) Os yw'r ceisydd yn tynnu ei gais yn ôl, rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r Awdurdod a phob person y rhoddwyd copi o'r hysbysiad adran 35 iddo o dan adran 37 o'r Ddeddf, am y tynnu'n ôl.

**Methu â chymryd camau**

**32.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r ceisydd neu'r Awdurdod, o fewn terfynau amser perthnasol, wedi methu â chymryd unrhyw gam i ddarparu unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Caiff y person penodedig, ar ôl rhoi hysbysiad i'r ceisydd a'r Awdurdod o'r bwriad i wneud hynny, benderfynu cais er nad yw'r cam hwnnw wedi ei gymryd neu nad yw'r wybodaeth honno wedi ei darparu.

**Dirymu penodiad**

**33.**—(1) Pan na fo cais wedi ei benderfynu, caiff Gweinidogion Cymru ddirymu penodiad a wnaed o dan adran 39(1) neu 43(3) o'r Ddeddf os ydynt—

(a) yn cael eu hysbysu yn ysgrifenedig gan y person penodedig, neu

(b) yn fodlon fel arall,

nad yw'r person penodedig yn gallu cyflawni gofynion adran 39 neu 43 (fel y bo'n briodol) o'r Rheoliadau hyn.

(2) Pan gaiff penodiad ei ddirymu, rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, benodi person arall o dan adran 39(1) neu 43(3) (fel y bo'n briodol) i benderfynu'r cais.

(3) Pan wneir penodiad newydd, caiff y person penodedig benderfynu a oes rhaid i'r cais, neu unrhyw wrandawiad neu ymchwiliad mewn cysylltiad â'r cais, ddechrau o'r newydd.

(4) Ond nid oes unrhyw beth yn is-baragraff (3) yn ei gwneud yn ofynnol rhoi cyfle i unrhyw berson i gyflwyno sylwadau neu sylwadaethau newydd neu addasu neu dynnu'n ôl unrhyw sylwadau neu sylwadaethau a gyflwynwyd eisoes.

**Hysbsiad o benderfyniad**

**34.** Rhaid i'r person penodedig hysbysu'r ceisydd, yr Awdurdod a phob person y rhoddwyd copi o'r hysbysiad adran 35 iddo o dan adran 37 o'r Ddeddf, yn ysgrifenedig am benderfynu'r cais.

*Llyr Gruffydd*
Y Gweinidog Cabinet dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad